# Gweithredu a monitro hylendid a bioddiogelwch safle

## Trosolwg

Mae’r safon hon yn ymwneud â gweithredu a monitro hylendid a bioddiogelwch safle i leihau’r potensial i organebau pathogenaidd neu Rywogaethau Estron Goresgynnol (INNS) fynd i safle neu adael safle.

Mae trefniadau hylendid a bioddiogelwch effeithiol yn hanfodol ar gyfer ffrwyno lledaeniad clefydau ac INNS yn y sector tir. Bydd yr union drefniadau ar gyfer cynnal hylendid a bioddiogelwch yn dibynnu ar y gweithgareddau a wneir ar safle.

Wrth weithio gyda pheiriannau a chyfarpar, neu gemegion, dylech fod wedi cael eich hyfforddi a dylech ddal tystysgrifau cyfredol, lle bo’n ofynnol.

Wrth wneud eich gwaith, mae’n rhaid i chi ystyried unrhyw effaith y gall ei chael ar yr amgylchedd.

Mae’r safon hon yn addas i bobl sy’n gyfrifol am weithredu a monitro gweithdrefnau hylendid a bioddiogelwch safle.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. asesu'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r gweithgaredd sydd i'w gyflawni
2. gweithredu a monitro gweithdrefnau hylendid a bioddiogelwch cywir ar gyfer y safle, yn unol â'r gofynion cyfreithiol, y cyfarwyddiadau a'r manylebau perthnasol
3. cadarnhau bod dillad a chyfarpar diogelu personol (PPE) addas ar gael, eu bod yn y cyflwr gofynnol a'u bod yn cael eu defnyddio'n gywir
4. monitro'r newidiadau i esgidiau a dillad y mae eu hangen i gynnal bioddiogelwch safle
5. cadarnhau bod offer, cyfarpar a deunyddiau sy'n ofynnol i gynnal hylendid a bioddiogelwch safle yn addas i'w defnyddio ac wedi'u gosod yn gywir
6. cadarnhau bod cemegion wedi'u paratoi'n gywir a'u bod yn cael eu hadnewyddu'n rheolaidd, yn unol â chyfarwyddiadau a manylebau
7. gwirio a chadarnhau bod arwyddion rhybudd wedi'u lleoli'n glir
8. cadarnhau bod yr holl gemegion yn cael eu defnyddio a'u storio'n ddiogel ac yn unol â deddfwriaeth, cyfarwyddiadau a manylebau perthnasol
9. monitro'r polisi mynediad i'r safle ar gyfer personél a cherbydau
10. cadarnhau bod ymwelwyr a gyrwyr cerbydau sy'n cyrraedd ac yn ymadael â'r safle yn dilyn gweithdrefnau hylendid a bioddiogelwch cywir a chymryd y camau gweithredu priodol, pan fo angen
11. gwirio bod yr holl bersonél yn dilyn y gweithdrefnau hylendid a bioddiogelwch cywir a chymryd y camau gweithredu gofynnol pan na ddilynir gweithdrefnau
12. gweithredu gweithdrefnau hylendid a bioamrywiaeth i osgoi halogi neu draws-halogi ac i leihau lledaeniad ar y safle
13. rhoi gweithdrefnau cwarantin ar waith, lle bo gofyn
14. gweithredu newidiadau i weithdrefnau hylendid a bioddiogelwch safle pan fo angen i gynnal effeithiolrwydd
15. cynnal cyfathrebu â chydweithwyr ac eraill sy'n ymwneud â'ch gwaith neu y mae eich gwaith yn effeithio arnynt
16. dilyn arfer da amgylcheddol busnes a diwydiant i leihau difrod amgylcheddol
17. cadarnhau yr ymdrinnir yn ddiogel ac yn gywir â gwastraff, yn unol â gofynion cyfreithiol ac arferion busnes perthnasol
18. cadarnhau bod gwaith yn cael ei gyflawni yn unol â'r ddeddfwriaeth amgylcheddol ac iechyd a diogelwch, gofynion asesu risg, codau ymarfer a pholisïau busnes perthnasol

19. cadarnhau bod cofnodion yn cael eu cynnal a'u storio fel y bo'n ofynnol gan y ddeddfwriaeth berthnasol a'r busnes

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i adnabod peryglon ac asesu risgiau
2. y rhesymau dros weithdrefnau hylendid a bioddiogelwch y safle
3. y gwahanol fathau o weithdrefnau hylendid a bioddiogelwch
4. sut i fonitro bod gweithdrefnau hylendid a bioddiogelwch yn cael eu gweithredu a'u dilyn yn gywir, a goblygiadau peidio â'u dilyn
5. y math o ddillad a chyfarpar diogelu personol (PPE) sy'n ofynnol, a phwysigrwydd monitro'u bod yn cael eu defnyddio'n gywir
6. y mathau o offer, cyfarpar a deunyddiau sy'n ofynnol ar gyfer cynnal hylendid a bioddiogelwch y safle a sut y dylid eu paratoi a'u gosod
7. y gofynion ar gyfer storio a defnyddio cemegion yn unol â deddfwriaeth, cyfarwyddiadau a manylebau perthnasol
8. pwysigrwydd monitro bod cemegion yn cael eu paratoi'n gywir yn unol â chyfarwyddiadau a manylebau, a phryd a sut y dylid adnewyddu cemegion
9. y mathau o arwyddion rhybudd, pryd dylid eu defnyddio a ble dylid eu lleoli
10. sut mae organebau pathogenaidd ac INNS yn cael eu lledaenu, a'r canlyniadau posibl i gnydau, anifeiliaid, iechyd pobl a'r amgylchedd
11. defnyddio cwarantin i leihau risg cyflwyno clefydau
12. y gweithdrefnau i'w dilyn pan fydd tor-hylendid neu dor-bioddiogelwch safle
13. pryd i wneud newidiadau i weithdrefnau hylendid a bioddiogelwch safle i gynnal effeithiolrwydd
14. pam mae'n bwysig cyfleu gweithdrefnau hylendid a bioddiogelwch i'r holl bersonél ac ymwelwyr â'r safle
15. yr effaith bosibl y gallai eich gweithgareddau ei chael ar yr amgylchedd a ffyrdd o allu lleihau hyn
16. gwybod sut i drin, cludo, storio a gwaredu gwastraff yn unol â'r gofynion cyfreithiol ac arferion busnes perthnasol
17. eich cyfrifoldebau o dan y ddeddfwriaeth amgylcheddol ac iechyd a diogelwch, codau ymarfer a pholisïau busnes perthnasol
18. y cofnodion y mae angen eu cadw a phwysigrwydd eu cwblhau

## Geirfa

**Gweithdrefnau hylendid a bioddiogelwch:**

- gweithdrefn hylendid personol
- gweithdrefn glanhau
- gweithdrefn mynediad cerbydau
- gweithdrefn mynediad personél

**Cyfarwyddiadau a manylebau:**

- lluniadau/cynlluniau
- amserlenni
- datganiadau dull
- Gweithdrefnau Gweithredu Safonol (SOPs)
- canllawiau gwneuthurwyr
- gofynion cwsmeriaid
- cyfarwyddiadau llafar

**Defnyddir Safle i ddisgrifio pob rhan o'r ardal waith**

# Gweithredu a monitro hylendid a bioddiogelwch safle

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Fersiwn rhif** | 4 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Maw 2023 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Maw 2028 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANCS62 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Ffermwr, Rheolwr Fferm, Rheolwr Uned, Cadwraeth Amgylcheddol, Rheolwr Pysgodfa, Garddwriaeth, Rheolwr Anifeiliaid Hela a Bywyd Gwyllt, Rheolwr Dyframaethu |
| **Cyfres/Set** | Cynhyrchu Cnydau Amaethyddol, Cynhyrchu Da Byw, Rheoli Digwyddiadau yn y Sector Tir |
| **Geiriau Allweddol** | plâu; clefydau; fferm; da byw; cnydau; cerbydau; cemegion; hylendid; bioddiogelwch |